

Cyfansoddiad Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin

Wedi'i ddiwygio yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r Fforwm 50+, 13 Mawrth 2018

1 Rhagarweiniad

Mae Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Fforwm') yn dwyn ynghyd unigolion sy'n 50 oed a hŷn ac sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt drafod materion, hyrwyddo atebion, a dylanwadu ar y sefydliadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

2 Yr Amcanion

Amcan y Fforwm yw hyrwyddo buddiannau pobl 50 oed a hŷn yn Sir Gaerfyrddin, yn bennaf ond nid yn unig drwy'r dulliau canlynol:

- Cynnal rhwydwaith cymorth gyda'r nod o leihau tlodi, hyrwyddo iechyd da, datblygu addysg a gwella amodau byw ar gyfer pobl 50+ oed.
- Helpu i ddatblygu o sgiliau a galluoedd pobl 50+ mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn wynebu risg lai o ran tlodi, afiechyd ac arwahanrwydd cymdeithasol, a'u bod yn gallu nodi eu hanghenion a'u diwallu'n well a chymryd rhan fwy yn y gymuned.
- Ystyried themâu allweddol Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn.

3 Pwerau

Er mwyn cyflawni'r amcanion, mae gan y Fforwm y pŵer i wneud y canlynol:

- Codi arian, derbyn grantiau a rhoddion.
- Gwneud cais am gyllid i wneud gwaith y sefydliad.
- Cydweithio â grwpiau eraill sydd â dibenion tebyg a'u cynorthwyo.
- Rhannu gwybodaeth a rhoi arweiniad.
- Cydgysylltu â swyddogion y Cyngor ac aelodau etholedig, a chyrrff statudol, fel bo'n briodol, er mwyn hyrwyddo amcanion y Fforwm.
- Gwneud unrhyw beth arall yn unol â'r gyfraith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r amcanion.

Arferir yr holl bwerau gweithredol drwy Grŵp Llywio'r Fforwm 50+ ('y Grŵp Llywio').

4 Aelodaeth y Fforwm

Bydd unrhyw unigolyn sy'n 50 oed neu'n hŷn ac sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn gallu bod yn Aelod o'r Fforwm.

Bydd aelodaeth y Fforwm a'r Grŵp Llywio, cyn belled â phosibl, yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth 50+ yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd y Fforwm yn cadw rhestr gyfredol o'r aelodau.

Mae gan aelodau'r hawl i gytuno ar ffi ymuno neu ar ffi aelodaeth flynyddol mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

5 Hawliau Pleidleisio

Bydd pob aelod o'r Fforwm yn gymwys i gael un bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (un bleidlais yr aelod).

6 Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Mae'n rhaid cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn, gan roi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i aelodau'r Fforwm a chan roi gwybod iddynt am yr hyn sydd ar yr agenda. Lle bo'n briodol, bydd y Grŵp Llywio'n cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Gall unrhyw aelod o'r Fforwm ei gynnig ei hun i'w ethol yn aelod o'r Grŵp Llywio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'n rhaid bod o leiaf 50 o aelodau'r Fforwm yn bresennol ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyfan er mwyn i'r cyfarfod gyrraedd y cworwm. Os nad yw hyn yn berthnasol, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio a'i gynnal eto ar amser ac mewn lle a bennir gan y Grŵp Llywio.

Rhoddir rhybudd o 7 niwrnod cyfan cyn ailgynnull y cyfarfod, gan nodi dyddiad, amser a lle'r cyfarfod. Os na chyrhaeddir y cworwm yn y cyfarfod sydd wedi'i ailgynnull cyn pen 15 munud ar ôl yr amser a bennwyd i ddechrau'r cyfarfod, cworwm y cyfarfod hwnnw fydd yr aelodau sy'n bresennol ar yr amser hwnnw.

7 Y Grŵp Llywio

Bydd materion y Fforwm yn cael eu rheoli gan Grŵp Llywio, sy'n cynnwys 22 o aelodau, fel a ganlyn:

7.1 Cyfansoddiad

- Hyd at 15 aelod etholedig o'r Fforwm 50+
- Uchafswm o 5 aelod cyfetholedig sy'n cynrychioli grwpiau perthnasol yn Sir Gaerfyrddin, yn ôl disgresiwn llwyr y Grŵp Llywio.
- Hyrwyddwr 50+ Cyngor Sir Caerfyrddin.
- Uwch-swyddog Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd y Grŵp Llywio'n penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd a swyddogion priodol eraill o blith eu haelodau. Ni chaiff aelodau sy'n bresennol yn rhinwedd eu cyfrifoldebau fel swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin ddal swydd.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu cymorth i'r swyddogion.

7.2 Ethol y Grŵp Llywio

- Fel arfer, bydd 5 o 15 aelod etholedig y Grŵp Llywio'n cael eu hethol bob blwyddyn ar sail dreigl. Mewn amgylchiadau penodol, gallai nifer y lleoedd sy'n rhan o'r etholiad amrywio (e.e., oherwydd ymddiswyddiadau).
- Bydd y Fforwm 50+ yn rhoi hysbysiad o etholiadau i holl aelodau'r fforwm, ac yn gofyn am enwebiadau ganddynt, o leiaf 14 diwrnod cyn y Cyfarfod Blynyddol. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys dyddiadau ac amserau perthnasol ar gyfer cau'r enwebiadau.
- Bydd angen datganiad byr sy'n cynnwys profiad y sawl a enwebir a'i gynlluniau ar gyfer y Fforwm i ategu pob enwebiad.
- Dylid cyflwyno enwebiadau o leiaf 7 diwrnod cyn y Cyfarfod Blynyddol. Bydd manylion yr holl enwebiadau sy'n dod i law yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd y wybodaeth hon hefyd ar gael i'r aelodau drwy'r post ar gais ac ar ôl darparu amlen â chyfeiriad a stamp arni erbyn dyddiad cau'r enwebiadau.

- Bydd y pleidleisio'n digwydd drwy godi dwylo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Dim ond yr aelodau sy'n bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd yn gymwys i bleidleisio. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn y Cyfarfod Blynyddol.

7.3 Tymor yn y Swydd

Yn y lle cyntaf, bydd holl swyddi'r Grŵp Llywio, a bennir ar gyfer aelodau etholedig, yn cael eu cadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol. Ar ôl hynny, ac mewn amgylchiadau arferol, bydd aelodau etholedig y Grŵp Llywio yn dal swydd am dymor o 3 blynedd, wedi'i gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol. Bydd aelodau etholedig yn gallu sefyll i gael eu hailethol.

Bydd y Grŵp Llywio yn adolygu aelodaeth gyfetholedig y grŵp o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau'r gynrychiolaeth eang sydd ei hangen ar gyfer y grŵp.

7.4 Cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Llywio'n cwrdd mor aml ag sy'n angenrheidiol i gyflawni busnes y Fforwm, ac o leiaf 4 gwaith y flwyddyn.

Y cworwm mewn cyfarfod o'r Grŵp Llywio fydd o leiaf 50% o'r aelodau etholedig sy'n gwasanaethu ar y pryd.

Os oes gan aelodau'r Grŵp Llywio fuddiannau sy'n gwrthdaro, mae'n rhaid iddynt eu datgan a gadael y cyfarfod tra bo'r mater hwn yn cael ei drafod neu y penderfynir arno.

Mae angen cyfranogiad gweithredol ar y Grŵp Llywio, felly os bydd aelodau yn methu â mynychu 3 chyfarfod yn olynol, gellir gofyn iddynt ymddiswyddo os bydd y cadeirydd yn cynnig hynny a bod y rhan fwyaf o'r aelodau sy'n bresennol yn cytuno. Bydd y Cadeirydd yn ystyried yr amgylchiadau mewn perthynas â'r absenoldeb.

Mewn amgylchiadau lle bo'r unigolyn yn cynrychioli sefydliad, bydd cynrychiolydd arall yn cael ei geisio.

Bydd cofnodion priodol yn cael eu cadw ynghylch penderfyniadau a wneir gan y Grŵp Llywio ac mewn cyfarfodydd cyffredinol.

7.5 Rôl y Grŵp Llywio

Bydd y Grŵp Llywio yn:

- Ceisio barn y Fforwm 50+ a gweithredu mewn ymateb iddi. Bydd hyn yn cynnwys ceisio dylanwadu a meithrin perthynas ag ystod o sefydliadau ac unigolion.
- Cytuno ar gynllun gwaith a fydd yn arwain gwaith y Fforwm.
- Sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen anffurfiol yn ôl y gofyn. Bydd gan grwpiau o'r fath statws ymgynghorol yn unig ac ni fydd ganddynt unrhyw bwerau gweithredol dirprwyedig.
- Hyrwyddo'r Fforwm i unigolion a grwpiau ar draws Sir Gaerfyrddin.
- Monitro cynnydd y Fforwm a'i allu i gyrraedd ei dargedau a bennir yn y cynllun gwaith y cytunir arno.
- Gwahodd Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin i gyfarfod bob blwyddyn er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i bobl 50+.
- Gall y Grŵp Llywio lunio rheolau ychwanegol rhesymol i'w helpu i gynnal y Fforwm. Ni chaiff y rheolau hyn fynd yn groes i'r cyfansoddiad hwn na'r gyfraith.

8 Cyllid

- Bydd yr holl arian a godir gan y Fforwm neu ar ei ran yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu amcanion y Fforwm ac nid at unrhyw ddiben arall.
- Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am arian y Fforwm a bydd yn penodi Trysorydd. Bydd cymorth ychwanegol mewn ffyrdd eraill yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin.
- Rhaid i'r arian a godir gan y Fforwm gael ei gadw mewn cyfrif banc yn enw'r Fforwm 50+. Rhaid i'r holl sieciau neu daliadau eraill gael eu llofnodi gan 2 o'r 3 llofnodwr dynodedig.
- Caiff adroddiad o incwm a threuliau'r flwyddyn ei baratoi ar ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn i'w gyflwyno i'r aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol.
- Gall yr aelodau gael ad-daliad am dreuliau dilys a phriodol sy'n codi wrth weithio ar ran y Fforwm, fel y cytunir arno gan y Grŵp Llywio.
- Heblaw am y treuliau y cyfeirir atynt uchod, ni all aelod gael ei dalu neu gael unrhyw fuddiant am fod yn aelod o'r Grŵp

Llywio.

9 Cyfarfodydd y Fforwm ac adroddiadau

Rhaid i aelodau sy'n cynrychioli'r Grŵp Llywio ar fyrddau sefydliadau perthnasol, ac mewn cyfarfodydd eraill, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio fel bo angen.

Ynghyd â chynnal trafodion busnes arferion, gellir cynnull y Grŵp Llywio i ystyried y canlynol:

- Dirwyn i ben - gall y Fforwm 50+ gael ei ddirwyn i ben gan fwyafrif o ddau draean o aelodau'r Grŵp Llywio sy'n bresennol. Rhaid rhoi unrhyw arian neu eiddo sydd ar ôl yn dilyn talu dyledion i grŵp sydd â dibenion (elusennol) tebyg.
- Newid y Cyfansoddiad - Gall y cyfansoddiad gael ei newid gan fwyafrif o ddau draean o aelodau'r Grŵp Llywio sy'n bresennol.

Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig - ar agor i holl aelodau'r Fforwm 50+. Gall y Grŵp Llywio eu trefnu am y rhesymau canlynol:

- Ar gais ysgrifenedig o leiaf 50 o aelodau. Rhaid i'r holl aelodau gael o leiaf 14 diwrnod o rybudd a rhaid iddynt gael gwybod am y rheswm dros y cyfarfod.
- Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig Brys - i ganiatáu i'r aelodau benderfynu ar faterion pwysig.

10 Mesur y Gymraeg 2010

Bydd Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin yn ymdrechu lle bo'n bosibl i gynnal ei fusnes yn ddwyieithog gan ei fod yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Er bod Mesur y Gymraeg yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yn benodol, bydd Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth lle bo'n ymarferol.

Llofnodwyd
Ar ran Fforwm 50+ Sir Gaerfyrddin

Dyddiad:

.....
.....